# anthem.




Anthem FFWD>> 2024

**CYNORTHWYWYR RHAGLEN ANTHEM**
**PECYN GWYBODAETH**
**Mawrth 2025**

YOUTH MUSIC
MAKING MUSIC . CHANGING LIVES .

Annwyl Ymgeisydd,

Diolch am eich diddordeb yn Anthem.

Elusen ifanc, ychydig dros bum mlwydd oed, yw Anthem. Cronfa Gerdd Cymru. Rydyn ni wedi bod yn adeiladu ein rhaglenni yn gyflym dros y blynyddoedd diwethaf, gan gynnwys ein Fforwm FFWD>> sy'n cynnwys pobl ifanc 16 – 25 oed sydd ag angerdd am gerddoriaeth yng Nghymru, Cronfa Atsain sy'n canolbwyntio ar gael gwared ar rwystrau i gerddoriaeth i bobl ifanc yng Nghymru, a Phorth Anthem sy'n cynnig cyswllt cyntaf i bobl ifanc yng Nghymru sydd am ddatblygu eu cerddoriaeth.

Bydd y rolau rydyn ni'n eu cynnig ar hyn o bryd yn cefnogi ein rhaglen weithgareddau gan gynnwys ein Fforwm FFWD>>, gweithdai sgiliau, a chyflwyno cronfa newydd o'r enw Dilyniant. Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn gweithio gyda phobl ifanc ledled Cymru i gefnogi eu datblygiad a chynnal digwyddiadau, gan weithio'n agos gyda mi a'n Rheolwr Rhaglen, Kofi.

Mae Anthem yn cael ei rhedeg gan dîm bach amrywiol gyda rhai aelodau staff ar PAYE a rhai aelodau staff yn gweithio fel gweithwyr llawrydd. Caiff y tîm ei gefnogi gan grŵp ymroddedig o ymddiriedolwyr o amryw gefndiroedd. Mae pwyslais cryf ar gymorth ar y cyd ac mae'n bwysig bod pawb yn teimlo eu bod yn cael eu croesawu, yn gallu gwneud eu gwaith hyd eithaf eu gallu ac yn cael cyfle i ddatblygu eu hunain pan fyddan nhw'n dod i weithio gydag Anthem. Wrth recriwtio, rydyn ni'n chwilio am botensial ac angerdd.

Byddwn yn hapus i drafod y rôl gyda chi cyn i chi wneud cais, felly os oes gennych unrhyw gwestiynau neu os ydych eisiau trefnu galwad ffôn, anfonwch e-bost i mi:
rhian.hutchings@anthem.wales.
Rhian Hutchings, Prif Weithredwr Anthem



## YNGLŶN AG ANTHEM

Sefydlwyd Anthem. Cronfa Gerdd Cymru yn 2018 yn dilyn adroddiad gan Lywodraeth Cymru yn archwilio ffyrdd i gefnogi addysg gerddorol yng Nghymru.

Gweledigaeth Anthem yw Cymru lle gall cerddoriaeth rymuso pob bywyd ifanc.

Credwn fod cerddoriaeth yn rym creadigol cryf i bobl ifanc sy’n hybu hunanfynegiant, datblygiad personol a lles.

Bydd Anthem yn creu cyfleoedd ar draws genres a chymunedau ac yn meithrin talent amrywiol i gymryd y camau nesaf at yrfaoedd cerddorol.

Mae Anthem yn sbardun ar gyfer cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru, yn ariannu gwaith a fydd yn creu newid, yn gwneud cysylltiadau i ehangu gwaith partneriaeth, ac yn galluogi arferion gorau i ffynnu.

Mae Anthem yn ceisio sicrhau bod egwyddorion cydraddoldeb ac amrywiaeth – hygyrchedd, cynwysoldeb, parch a gwahaniaeth – yn sail i bob maes yng ngwaith y mudiad a'i nod yw eu hybu o fewn ei fwrdd, ei arferion cyflogaeth ac ar draws ei waith. Mae Anthem yn ystyried bod ei gwaith yn gydweithredol, arloesol, cynhwysol a chreadigol ac yn waith sy’n ysbrydoli.

## RHAGLENNI ANTHEM

Mae Anthem wedi datblygu ystod o raglenni dros y pedair blynedd diwethaf sydd wedi’u dylunio i helpu pobl ifanc i ymwneud â cherddoriaeth a chreu llwybrau i mewn i’r diwydiant cerddoriaeth.

- Mae Anthem FFWD>> yn recriwtio 15 o weithwyr ifanc proffesiynol ym maes cerdd, rhwng 17 a 24 oed ac o bob rhan o Gymru, i weithio gydag Anthem dros gyfnod o flwyddyn. Mae'r grŵp yn cyfarfod bob pythefnos ar Zoom, gan ehangu eu gwybodaeth am rwydweithiau ac ymdrin â materion sy'n wynebu pobl ifanc yng Nghymru sydd am gael i mewn i gerddoriaeth.
- Mae Porth Anthem yn fan galw cyntaf ar-lein i unrhyw berson ifanc sydd â diddordeb yn y diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru. Gall pobl ifanc ddod o hyd i gyfleoedd ym maes cerddoriaeth, gwybodaeth am yrfaoedd, straeon am gyfoedion a chysylltiadau i'r diwydiant cerddoriaeth yng Nghymru.
- Mae Curaduron Ifanc Cymru yn brosiect partneriaeth sy'n gweithio gyda 4 lleoliad partner i ddatblygu grwpiau o guraduron ifanc rhwng 14 ac 20 oed. Mae'r grwpiau'n curadu ac yn cynnal gigs mewn lleoliadau yn eu hardal leol i gynulleidfaoedd o'u cyfoedion.
- Mae Sgiliau Cynaliadwyedd yn rhaglen newydd o sesiynau hyfforddi i bobl ifanc sy'n creu ym maes cerddoriaeth. Mae'r rhaglen yn cynnig datblygiad sgiliau busnes a llwybrau i yrfaoedd sy'n ffinio â cherddoriaeth.
- Mae Cronfa Dilyniant yn gronfa newydd sy'n cynnig grantiau bach i gerddorion ifanc yng Nghymru sydd angen cymorth ariannol i fynd â'u cerddoriaeth i'r lefel nesaf.

**Y ROLAU**

Ar hyn o bryd rydyn ni'n awyddus i benodi dau Gynorthwyydd Rhaglen i helpu â'r gwaith o gynnal gweithgarwch y rhaglen yn ystod y flwyddyn nesaf.

Bydd y Cynorthwywyr Rhaglen yn gweithio ar y prosiectau canlynol:

- Bydd un Cynorthwy-ydd Rhaglen yn gweithio gyda Phrif Swyddog Gweithredol Anthem i gefnogi Fforwm Ieuenctid FFWD >>

- Bydd un Cynorthwy-ydd Rhaglen yn gweithio gyda Rheolwr Rhaglen Anthem i gefnogi'r Gronfa Dilyniant a rhaglen hyfforddi Sgiliau ar gyfer Cynaliadwyedd.

**SUT I WNEUD CAIS**

Darllenwch y disgrifiad o’r rôl a manyleb y person isod.

Llenwch y ffurflen gais ar y ddolen hon:

https://airtable.com/appYiqC2OPfonwzcP/pagYzQCMpPFUGfxDD/form

Bydd gofyn i chi lanlwytho

- CV sy'n amlinellu eich profiad presennol
- Llythyr eglurhaol neu fideo yn esbonio pam fod gennych ddiddordeb a pham eich bod yn gymwys ar gyfer y rôl

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno ceisiadau yw dydd Gwener 28 Mawrth 2025.
Cewch wybod os ydych wedi cael eich gwahodd am gyfweliad erbyn 2 Ebrill.
Caiff y cyfweliadau eu cynnal ar ddydd Llun 7 Ebrill 2025.

Os oes gennych unrhyw ofynion arbennig eraill i'ch galluogi i wneud cais am y rôl hon, rhowch wybod i ni drwy anfon e-bost i rhian.hutchings@anthem.wales

**DISGRIFIAD O SWYDD CYNORTHWYYDD RHAGLEN**

**Contract:** cyfnod penodol rhwng 1 Ebrill 2025 a 31 Mawrth 2026
**Cyflog:** 7 awr yr wythnos ar gyfradd o £14 yr awr
**Lleoliad:** Bydd disgwyl i ymgeiswyr fod wedi'u lleoli yn Ne Cymru a gweithio o swyddfeydd Anthem, Bizspace, 5 Fitzalan Place, Caerdydd, CF23 5DT.
**Yn gyfrifol i:** Prif Weithredwr Anthem a’r Rheolwr Rhaglen

Mae'r rôl hon yn agored i ymgeiswyr 18 i 30 oed ac yn cael ei chefnogi gan Youth Music Industry Connect Fund.

Bydd Cynorthwywyr Rhaglen Anthem yn gyfrifol am gadw eu prosiectau Anthem a neilltuwyd i'r amserlen ac o fewn y gyllideb, cefnogi digwyddiadau, casglu data a chynorthwyo gydag ysgrifennu adroddiadau.

Tasgau

- Cynorthwyo ar gynllunio ac amserlennu gweithgareddau
- Cynorthwyo ar reoli cyllideb
- Rheoli digwyddiadau rhwydweithio ac arddangos Cronfa Dilyniant
- Gweithio'n uniongyrchol gyda chyfranogwyr y prosiectau i'w cefnogi
- Gweithio gyda Rheolwr Cyfathrebu Anthem i alluogi i gynllunio'r cyfathrebu yn effeithiol o amgylch ffrydiau gweithgarwch
- Gweithio gyda'r Prif Weithredwr a'r Rheolwr Codi Arian i reoli'r gwaith gwerthuso ac adrodd ar gyfer ffrydiau gweithgarwch Anthem
- Gweithio o polisïau allweddol Anthem gan gynnwys Diogelu, GDPR, Cydraddoldeb ac Amrywiaeth a Chod Ymddygiad.

Nodweddion

- Gofod swyddfa yn swyddfeydd Anthem - Bizspace, 202 Tŷ Trafalgar, 5 Plas Fitzalan, Caerdydd, CF24 0ED
- Y gallu i deithio i fynychu cyfarfodydd neu i fynychu cyfarfodydd ar-lein
- Y gallu i gynorthwyo mewn digwyddiadau wyneb yn wyneb yn ôl yr angen
- Caiff hyfforddiant ei ddarparu fel rhan o'r rôl
- Bydd Anthem yn cynnal gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd
- Gwybodaeth ymarferol am blatfformau digidol, gan gynnwys Discord, Zoom, Google, Airtable, Canva

Manyleb y Person

| Gwybodaeth a Phrofiad |
|---|
| Profiad o drefnu gig neu ddigwyddiad |
| Cymryd rhan weithredol yn eich sin gerddoriaeth leol |
| Profiad o gefnogi pobl ifanc yng Nghymru |
| Profiad o wirfoddoli ar gyfer prosiect lleol |
| Profiad o gynnal prosiectau a digwyddiadau |
| Angerdd am gerddoriaeth yng Nghymru |
| Sgiliau a Galluoedd |
| Sgiliau trefnu cryf |
| Gweithiwr manwl sy’n rhoi sylw i fanylion |
| Cyfathrebu’n rhagorol ar lafar ac yn ysgrifenedig |
| Sgiliau dadansoddol da, gyda'r gallu i gasglu, dehongli ac asesu gwybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau a nodi materion allweddol |
| Hyderus wrth arwain grŵp o bobl o wahanol gefndiroedd |
| Y gallu i weithio'n ddwyieithog yn Gymraeg a Saesneg |
| Rhinweddau Personol |
| Chwaraewr tîm ardderchog sy'n ysbrydoli ymddiriedaeth |
| Yr agwedd i allu gweithredu’n hyderus - yn dangos menter ac yn gweithio gyda goruchwyliaeth ysgafn |
| Uniondeb personol — tystiolaeth o ddisgresiwn, gonestrwydd, bod yn agored |
| Dymunol |
| Sgiliau Cymraeg cryf |
| Gwybodaeth am reoli prosiectau a rheoli digwyddiadau |
| Gwybodaeth am y diwydiant cerddoriaeth a thirwedd cerddoriaeth ieuenctid yng Nghymru |

| |
|---|
| Profiad o weithio yn y sector elusennol neu gyda’r sector |